LWFANS CYFLOGAETH A CHYMORTH (ESA)

Gwybodaeth ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl difrifol

Noder: nid yw'r daflen hon yn amlinellu holl fanylion y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ond mae'n cynnig ychydig o gyngor yn benodol ar gyfer pobl ag afiechyd meddwl difrifol.

BETH YW HWN?

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yw'r budd-dal newydd sydd wedi cymryd lle'r Budd-dal Analluogrwydd a Chymhorthdal Incwm.

Tra eich bod yn derbyn y lwfans, mae'n bosib cynnig cefnogaeth a chymorth ariannol drwy'r Ganolfan Byd Gwaith. Byddwch yn medru cael mynediad yma at gynghorydd personol sydd wedi ei hyfforddi'n arbennig. Byddwch hefyd yn cael mynediad at ystod eang o wasanaethau eraill sydd wedi eu dylunio i'ch cynorthwyo chi i symud i mewn i waith addas.
Os yw eich afiechyd meddwl neu anabledd yn effeithio'n ddifrifol ar eich gallu i weithio, mae'r lwfans yn medru darparu cymorth ariannol ychwanegol.

Mae Hafal yn credu bod nifer o bobl sydd yn gwella o afiechyd meddwl difrifol yn medru gweithio, hyfforddi neu ymgysylltu ag addysg bellach neu uwch, ond i'r rhai hynny na sy'n medru gwneud hyn, mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn rhan hanfodol o'u hincwm ac mae'r canllaw hwn yn dangos sut y mae'n bosib mynd i'r afael ag ambell her sydd ynghlwm â gwneud cais am y budd-dal.

SUT I WNEUD CAIS AM LWFANS CYFLOGAETH A CHYMORTH

Cyn mynd ati i wneud unrhyw beth, ceisiwch gyngor oddi wrth eich Meddyg, Seiciatrydd, CPN/SW neu staff ym mhrosiectau Hafal cyn llenwi

unrhyw ffurflenni. Dylech drafod gyda hwy os ydynt yn teimlo eich bod yn ddigon iach i weithio. Os ydynt hwy yn teimlo na ddylech weithio, neu'ch bod yn methu â gweithio, neu os byddai mynd i weithio yn effeithio'n niweidiol o bosib ar eich iechyd a'ch lles chi neu rywun arall, yna gofynnwch iddynt i ysgrifennu ar eich rhan i'r Ganolfan Byd Gwaith yn datgan hyn.

Os ydych am wneud cais:

1. Ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith; byddant yn gofyn cwestiynau i chi dros y ffôn, neu os mae'n well gennych, dylech ofyn am ffurflen gais ESA 1 fel y gallwch ei llenwi eich hun neu gyda chymorth Prosiect Camau Bach Hafal. Os ydych yn ansicr, mae bob tro yn well i ofyn bod copi o'r ffurflen yn cael ei danfon atoch er mwyn i chi ei llenwi gyda chymorth oddi wrth eraill.

2. Os wnaethoch ddarparu gwybodaeth dros y ffôn, bydd llythyr yn cael ei ddanfon atoch yn cadarnhau'r wybodaeth yma. Os wnaethoch ofyn iddynt ddanfon ffurflen atoch, ewch â'r ffurflen i'ch prosiect Hafal neu Cyngor ar Bopeth neu ffynhonnell debyg arall a gofyn hwy am gymorth i lenwi'r ffurflen. Wrth lenwi'r ffurflen, cofiwch fod angen i chi esbonio'n glir i'r staff yn y Ganolfan Byd Gwaith sut y mae eich afiechyd yn effeithio arnoch pan ydych yn sâl a pha mor aml ydych yn sâl. Ni ddylech wneud datganiadau camarweiniol ond ni ddylech deimlo ychwaith o dan bwysau i ddatgan bod eich iechyd a'ch gallu i weithio yn well nag ydyw mewn gwirionedd. Weithiau, mae pobl sydd wedi derbyn gwasanaethau iechyd meddwl ers rhai blynyddoedd yn teimlo y dylent ddweud yr hyn y mae pobl yn dymuno ei glywed - ond mae'r ffurflen asesu hon yn ymwneud â rhoi gwybod i'r Ganolfan Byd Gwaith pa mor anodd yw pethau pan fod afiechyd meddwl difrifol gennych a dylech gofio hyn wrth lenwi'r ffurflen.

3. Mae yna gyfnod asesu sydd yn parhau am 13 wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn derbyn y gyfradd sylfaenol o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Fel rhan o'r asesiad, efallai y bydd rhaid i chi gwblhau ffurflen ESA 50 a'i danfon yn ôl i'r Ganolfan Byd Gwaith o fewn 4 wythnos. Efallai y byddwch yn cael eich danfon am apwyntiad gyda meddyg neu nyrs; os na fyddwch yn cadw'r apwyntiad hwn, bydd rhaid bod rheswm da gennych.

Yn ystod eich apwyntiad gyda'r meddyg, cofiwch i esbonio'r holl broblemau perthnasol sydd yn cael eu hachosi gan eich afiechyd. Efallai y byddai'n ddefnyddiol yma i gael ychydig o gymorth i ysgrifennu'r problemau yma ar bapur o flaen llaw fel nad ydych yn eu hanghofio.

4. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith wedyn yn gwneud penderfyniad a allai bennu:
    - Nad ydych yn ddigon yn iach i weithio a byddwch yn parhau i dderbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth: os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn derbyn mwy o arian ar ôl y cyfnod o 13 wythnos
    - Eich bod yn medru gweithio heb unrhyw gefnogaeth
    - Eich bod yn medru gwneud rhyw fath o waith; os felly, yna'r hyn sydd ei angen er mwyn eich cynorthwyo

Gan ddibynnu ar y penderfyniad, byddwch yn cael eich gosod wedyn naill ai:

1. Mewn Grŵp Cymorth, os byddai'n anodd i chi i ddod o hyd i waith cyflogedig
2. Grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith, os byddai modd i chi, gyda'r cymorth cywir, i ddod o hyd i waith cyflogedig; mae'n rhaid i chi i fynychu chwe chyfweliad gyda chynghorydd a fydd yn siarad gyda chi a'ch cynorthwyo i mewn i waith.

    Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad, mae'n bosib i chi i apelio a dylech ofyn am gymorth oddi wrth eich prosiect Hafal lleol a fydd yn medru eich cyfeirio at gefnogaeth arbenigol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

www.**jobcentreplus**.gov.uk